Rhestrau cyfeirio rhannu data

Mae'r ddwy restr gyfeirio hyn yn darparu canllaw cam wrth gam defnyddiol trwy'r broses o benderfynu p'un ai i rannu data personol. Mae un ar gyfer rhannu data systematig, y llall ar gyfer ceisiadau unigryw.

Mae'r rhestrau cyfeirio wedi eu cynllunio i'w defnyddio ynghyd â'r cod llawn ac yn amlygu'r ystyriaethau perthnasol i sicrhau bod y rhannu yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn bodloni disgwyliadau unigolion.

Rhestr gyfeirio rhannu data – rhannu data systematig

Senario: Rydych eisiau dod i gytundeb i rannu data personol ar sail barhaus

A ellir cyfiawnhau'r rhannu?
Pwyntiau allweddol i'w hystyried:

- Beth mae'r rhannu i fod i'w gyflawni?
- A ydych wedi asesu'r manteision a risgiau posibl i unigolion a/neu gymdeithas o rannu neu beidio rhannu?
- A yw'r rhannu'n gymesur i'r mater dan sylw?
- A ellid cyflawni'r nod heb rannu data personol?

A oes gennych yr awdurdod i rannu?
Pwyntiau allweddol i'w hystyried:

- Y math o sefydliad yr ydych yn gweithio iddo.
- Unrhyw swyddogaethau neu rymoedd perthnasol sydd gan eich sefydliad.
- Natur yr wybodaeth y gofynnwyd i chi rannu (er enghraifft, a'i derbyniwyd yn gyfrinachol?).
- Unrhyw oblygiad cyfreithiol i rannu gwybodaeth (er enghraifft, gofyniad statudol neu orchymyn llys).

Os byddwch yn penderfynu rhannu
Mae'n arfer da i sefydlu cytundeb rhannu data. Yn ogystal ag ystyried y pwyntiau allweddol uchod, dylai'ch cytundeb rhannu data gynnwys y materion canlynol:

- Pa wybodaeth sydd angen ei rhannu.
- Y sefydliadau fydd yn cymryd rhan.
- Beth sydd angen i chi ddweud wrth bobl am y data rydych yn rhannu a sut fyddwch yn cyfathrebu'r wybodaeth honno.
- Bod mesurau digonol i sicrhau diogelwch digonol wedi eu sefydlu i amddiffyn y data.
- Pa drefniadau sydd angen eu sefydlu i ddarparu unigolion â mynediad i'w data personol os byddant ei angen.
- Cyfnodau cadw cyffredin cytûn ar gyfer y data.
- Prosesau i sicrhau bod data'n cael ei ddileu yn ddiogel.

ico.
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Rhestr gyfeirio rhannu data – ceisiadau unigryw

Senario: Gofynnir i chi rannu data personol yn ymwneud ag unigolion dan amgylchiadau 'unigryw'

A ellir cyfiawnhau'r rhannu?
Pwyntiau allweddol i'w hystyried:

- A ydych chi'n meddwl y dylid rhannu'r wybodaeth hon?
- A ydych wedi asesu'r manteision a risgiau posibl i unigolion a/neu gymdeithas o rannu neu beidio rhannu?
- A oes gennych bryderon bod unigolyn dan risg o niwed sylweddol?
- A oes angen i chi ystyried eithriad dan y Ddeddf Diogelu Data i rannu?

A oes gennych yr awdurdod i rannu?
Pwyntiau allweddol i'w hystyried:

- Y math o sefydliad yr ydych yn gweithio iddo.
- Unrhyw swyddogaethau neu rymoedd perthnasol sydd gan eich sefydliad.
- Natur yr wybodaeth y gofynnwyd i chi rannu (er enghraifft, a'i derbyniwyd yn gyfrinachol?).
- Unrhyw oblygiad cyfreithiol i rannu gwybodaeth (er enghraifft, gofyniad statudol neu orchymyn llys).

Os byddwch yn penderfynu rhannu
Pwyntiau allweddol i'w hystyried:

- Pa wybodaeth y mae angen i chi rannu?
  - Dim ond beth sy'n angenrheidiol.
  - Gwahaniaethu ffaith a ffuglen.
- Sut ddylid rhannu'r wybodaeth?
  - Rhaid rhannu'r wybodaeth yn ddiogel.
  - Sicrhau'ch bod yn rhoi gwybodaeth i'r unigolyn priodol.
- Ystyriwch p'un a yw'n briodol/diogel i hysbysu'r unigolyn eich bod wedi rhannu eu gwybodaeth.

Cofnodi'ch penderfyniad
Cofnodwch eich penderfyniad rhannu data a'ch rhesymeg – p'un a ydych wedi rhannu'r wybodaeth neu beidio.

Os ydych yn rhannu'r wybodaeth dylech gofnodi:

- Pa wybodaeth a rannwyd ac i ba ddiben.
- Gyda phwy y'i rhannwyd.
- Pryd y'i rhannwyd.
- Eich cyfiawnhad dros rannu.
- P'un a rannwyd yr wybodaeth heb ganiatâd.